

**Adroddiad yn dilyn monitro  
Lefel y gweithgarwch dilynol: Gwelliant â ffocws**

**Cylch Chwarae Sant Padarn  
Heol Llanbadarn  
Aberystwyth  
Ceredigion  
SY23 1EZ**

**Dyddiad yr ymweliad: Ionawr 2021**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant  
yng Nghymru**

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod y lleoliad wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd diweddaraf, ac mae AGC yn fodlon bod y lleoliad yn cydymffurfio â gofynion rheoleiddio, o ganlyniad i'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r diffyg cydymffurfio.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r lleoliad oddi ar y rhestr o leoliadau sydd angen gwelliant â ffocws, ac mae AGC yn dirwyn ei phroses gydymffurfio i ben.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### **A1. Sicrhau bod darpariaeth ac adnoddau yn bodloni anghenion a diddordebau ystod oedran lawn y plant, yn cynnwys y plant sy'n mynychu'r clwb ar ôl yr ysgol**

Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi gwneud newidiadau cadarnhaol i'r amgylchedd, ac wedi buddsoddi mewn adnoddau sy'n bodloni anghenion ystod oedran lawn y plant sy'n mynychu'r lleoliad. Maent wedi gweithio'n llwyddiannus trwy gydol yr amgylchiadau eithriadol o heriol yn sgil pandemig y coronafeirws i wneud y gwelliannau angenrheidiol. O ganlyniad, maent wedi gwneud defnydd da o'r gofod sydd ar gael iddynt er mwyn sicrhau bod yr holl blant yn gallu elwa ar brofiadau dysgu cyfoethog dan do ac yn yr awyr agored, fel ei gilydd. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn cynllunio ardaloedd dysgu i sicrhau bod plant yn gallu mynd at ystod dda o adnoddau addas yn hawdd, yn cynnwys y rhai sy'n hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol.

Mae ffocws gwell ar lais y plentyn wrth gynllunio'r ddarpariaeth a'r adnoddau. Mae ymarferwyr yn arsylwi plant ac yn gofyn am eu syniadau, sy'n rhoi dealltwriaeth dda iddynt o ffafriaethau plant. Defnyddiant y wybodaeth hon, yn ogystal ag arsylwadau o gynnydd plant, i lywio cynllunio yn effeithiol. Maent wedi gweithio gyda theuluoedd i sicrhau bod diwylliant plant a ffafriaethau unigol yn cael eu gwerthfawrogi.

### **A2. Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol fynd i'r afael â'r holl faterion yn ymwneud â diffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod yr arolygiad**

Yn ystod yr arolygiad â ffocws a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ym mis Ionawr 2021, dangosodd arweinwyr dystiolaeth yr aethpwyd i'r afael yn briodol â'r holl feysydd diffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod yr arolygiad craidd ym mis Tachwedd 2019. Sicrhawyd cydymffurfio erbyn hyn.

Mae polisïau a gweithdrefnau clir ar waith i ddiogelu plant. Mae'r unigolyn sydd â gofal yn cyfleu'r rhain yn effeithiol i ymarferwyr, sydd bellach yn hyderus ynglŷn â'u rolau a'u cyfrifoldebau.

Mae'r unigolyn sydd â gofal ac ymarferwyr yn rhoi system effeithiol ar waith i sicrhau eu bod yn cadw cofnodion presenoldeb yn unol â rheoliadau.

Mae arweinwyr wedi sefydlu system briodol ar gyfer recriwtio staff newydd. Mae system ar waith i sicrhau bod yr holl wiriadau addasrwydd priodol yn cael eu cwblhau cyn cyflogi ymarferwyr newydd.

### **A3. Sicrhau bod yr holl bolisïau yn cydymffurfio'n llawn â rheoliadau, a'u bod yn cael eu cymhwyso'n gyson**

Yn ystod yr arolygiad â ffocws a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ym mis Ionawr 2021, dangosodd arweinwyr dystiolaeth fod polisïau yn cydymffurfio â rheoliadau a safonau gofynnol cenedlaethol erbyn hyn. Mae system briodol ar waith i sicrhau bod polisïau'n cael eu diweddarau yn ôl yr angen. Mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferwyr yn deall y polisïau yn llawn, ac yn gallu eu rhoi ar waith yn effeithiol, trwy gyfarfodydd tîm rheolaidd a myfyrio.

### **A4. Sicrhau bod cynllunio strategol yn canolbwyntio ar flaenoriaethau allweddol, ac yn arwain at welliannau amserol**

Ers yr arolygiad craidd ar y cyd, mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi penodi unigolyn newydd sydd â gofal i arwain a rheoli'r lleoliad. Ers y penodiad ym mis Ionawr 2020, mae'r unigolyn sydd â gofal wedi gweithio'n dda gyda'r holl ymarferwyr i ddatblygu'r ddarpariaeth a gwella safonau plant trwy gydol yr amgylchiadau eithriadol o heriol yn sgil pandemig y coronafeirws. Mae hi wedi llwyddo i rannu gweledigaeth glir ar gyfer y lleoliad â rhanddeiliaid eraill, sy'n canolbwyntio'n dda ar ddarparu addysg a gofal o ansawdd da i'r plant trwy brofiadau dysgu pwrpasol ac ysgogol. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau erbyn hyn, ac yn teimlo bod eu barn yn cael ei gwerthfawrogi wrth drafod gwaith y lleoliad.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr i gyd yn cyfrannu at gynllunio strategol. Maent yn trafod a gwerthuso gwaith y lleoliad yn rheolaidd, yn cynnwys monitro cynnydd tuag at yr argymhellion o'r arolygiad craidd. Mae hyn yn eu helpu i nodi beth sy'n gweithio'n dda a beth ellid ei wella. Maent wedi defnyddio platfformau rhithwir ar-lein yn effeithiol i gynnal cyfarfodydd yn rheolaidd trwy gydol y pandemig, sydd wedi eu galluogi i rannu eu syniadau â phobl eraill, a chyfrannu at gynllun gwella'r lleoliad. O ganlyniad, nodwyd blaenoriaethau allweddol ar gyfer datblygu, yn cynnwys gwella'r ardaloedd awyr agored i hwyluso profiadau dysgu cyffrous ac ysgogol ar gyfer y plant.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr wedi gweithio'n dda gydag athro ymgynghorol blynyddoedd cynnar yr awdurdod lleol i wella'r ddarpariaeth a deilliannau plant. Er enghraifft, maent wedi newid yr amgylchedd dysgu ac wedi addasu eu cynllunio ar gyfer darpariaeth barhaus ac estynedig i alluogi plant i symud yn fwy annibynnol dan do ac yn yr awyr agored, fel ei gilydd. Mae'r unigolyn sydd â gofal hefyd yn cysylltu cyfleoedd dysgu proffesiynol yn dda â chynllun gwella'r lleoliad, er mwyn bodloni anghenion ymarferwyr, ac anghenion y lleoliad. Er enghraifft, mae staff wedi ymgymryd â hyfforddiant gwaith chwarae, ac wedi gwella eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), sydd wedi eu galluogi i gyfathrebu â'i gilydd yn effeithiol yn ystod cyfnod y pandemig.

**® Hawlfraint y Goron 2021: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**